



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg

Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol
y Gymraeg Mewn Addysg

Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg

- **Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg Mewn Addysg**

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd y Bwrdd Cynghori ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ym mis Mai 2018. Pwrpas y Bwrdd yw cynghori'r Gweinidog ar gynlluniau i gryfhau'r seilwaith gynllunio ar gyfer addysg Gymraeg yn unol â gweledigaeth strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.¹ Prif swyddogaethau'r Bwrdd fel a nodwyd yn y cylch gorchwyl yw:
 - Ystyried a blaenoriaethu'r 18 argymhelliad a gyflwynwyd fel rhan o'r Adolygiad Brys ar y CSGAau;
 - Ystyried cynigion i adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n sail i'r rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer y CSGAau;
 - Adolygu'r modd y diffinnir ac y categorioidir ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir yn gyfrwng addysgu;
 - Ystyried a chyflwyno cynigion i gryfhau'r modd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio dilyniant ieithyddol o un cyfnod o addysg a hyfforddiant i'r llall yn eu CSGAau;
 - Ystyried rôl y 4 consortiwm a'r awdurdodau lleol o ran cynllunio gweithlu cyfrwng Cymraeg yn strategol.
2. Aelodaeth y Bwrdd:
 - Aled Roberts (Cadeirydd)²
 - Meirion Prys Jones, Cyfarwyddwr, LinguaNi Cyf
 - Sarah Mutch, Rheolwr y Blynnyddoedd Cynnar, Cyngor Bwrdeistref Caerffili
 - Bethan Morris Jones, Pennaeth Ysgol Pendalar, Caernarfon
 - Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Cyd-destun

3. Pwrpas yr adroddiad hwn yw nodi'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Cynghori wrth iddo ymateb i argymhellion yr Adolygiad Brys, gan fanylu ymhellach ar rai

¹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>.

² Bu Aled Roberts yn Gadeirydd Bwrdd Cynghori CSGA rhwng mis Mai 2018 a Chwefror 2019. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg ar 15 Chwefror 2019 i ddweud ei fod yn ymddiswyddo fel Cadeirydd y Bwrdd Cynghori CSGA a bod Dylan Foster Evans yn cymryd ei le fel Cadeirydd i gwblhau'r gwaith.

materion y dylid rhoi sylw penodol iddynt wrth ddiwygio'r rheoliadau a'r canllaw ar gyfer y CSGA. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig sylwadau ar rai materion sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl penodol y Bwrdd ond sydd angen ystyriaeth bellach gan y Llywodraeth os yw'r CSGAau yn mynd i wireddu'r uchelgais a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Ni ellir manylu yn uniongyrchol yn yr adroddiad hwn ar yr holl faterion y mae'r Bwrdd wedi cynnig cyngor yn eu cylch gan mai mater i'r Gweinidog yn y lle cyntaf yw dod i farn am y cynigion hynny a phenderfynu ar ba elfennau o'r cyngor y dylid ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch.

4. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod her sylweddol i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru o ran cynyddu'r gyfran o'n plant a'n pobl ifanc sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac o ran gwella sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg:

Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

Cymraeg2050: Miliwn o siaradwyr (t. 13)³

5. Bydd gwireddu hyn yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol i'r modd y cynllunnir addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu'r Gymraeg fel iaith. Y sefyllfa gyfredol o ran cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru yw ei bod yn ofyniad statudol, dan Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i bob Awdurdod Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i Weinidogion Cymru. Nod y Cynlluniau hyn yw sicrhau cyfle i bob awdurdod lleol gyflwyno ei weledigaeth ynghylch ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, gan nodi'n glir y camau angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth honno.

³ Dylid ystyried y targedau hyn yng ngoleuni'r sylw canlynol: 'Bydd nifer o ffactorau yn effeithio ar yr union lwybr tuag at y miliwn ac o ganlyniad, byddwn yn adolygu cynnydd yn barhaus er mwyn monitro'r hyn a gyflawnir a byddwn yn ailmweld â'r taflwybr yn ôl yr angen' (*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, t. 23).

6. Mae gofyniad ar awdurdodau lleol i gynllunio ar sail y deilliannau isod:
 - mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2.
 - mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
 - mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - mwy o ddysgwyr 16–19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.
 - darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
 - cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.
7. Cyflwynir y cynlluniau ar hyn o bryd mewn cylchoedd o dair blynedd. Bydd yr ail gylch CSGA yn dod i ben yn 2020. Disgwylir i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad cynnydd erbyn diwedd Rhagfyr bob blwyddyn.
8. Cyhoeddwyd Adolygiad Brys gan Aled Roberts o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg ym mis Awst 2017.⁴ Mae'r Adolygiad ei hun yn cynnwys 18 argymhelliad.
9. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried sut orau i weithredu'r argymhellion hynny, yn unol â chyfeiriad a datblygiadau polisi cyfredol Llywodraeth Cymru.

Yr adroddiad hwn

10. Er nad yw cylch gorchwyl y Bwrdd yn gofyn am adroddiad ysgrifenedig ffurfiol, cytunodd y Bwrdd ar gychwyn y broses i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Gweinidog ar ddiwedd cyfnod ei drafodaethau.
11. Edrychodd y Bwrdd Cynghori yn fanwl ar yr Adolygiad Brys a daeth i'r casgliad fod nifer o'r argymhellion yn yr Adolygiad eisoes wedi derbyn sylw a bod gweithredu wedi bod arnynt. Gobaith y Bwrdd Cynghori, yn sgil ei argymhellion ei hun i'r Gweinidog, yw y bydd y rheoliadau newydd o ran y CSGA diwygiedig yn sicrhau cyfundrefn lawer mwy grymus a phwrpasol yn y dyfodol a hynny er mwyn sicrhau gwell blaengynllunio a chyflawniad gan nifer o awdurdodau lleol.
12. Yn ôl yr adroddiadau a gafodd y Bwrdd Cynghori gan Lywodraeth Cymru, mae eisoes barodrwydd gan awdurdodau lleol i ymateb yn fwy cadarnhaol a rhagweithiol yn eu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. At hynny, mae'r

⁴ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-brys-o-gynlluniau-strategol-y-gymraeg-mewn-addysg-2017-20.pdf>.

berthynas â nifer o awdurdodau, lle bu ynghynt elfen o lusgo traed, yn un lawer mwy adeiladol a chefnogol. Gwelwyd hynny'n benodol iawn yn dilyn y cyhoeddiad yn 2018 fod arian cyfalaf ar gael i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cafwyd cadarnhad hefyd fod pob awdurdod addysg erbyn hyn wedi cytuno eu CSGA cyfredol â Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau newydd

13. O ystyried y drefn o strwythuro'r CSGA presennol, daeth y Bwrdd i'r casgliad fod angen diwygio'r is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013⁵) sy'n nodi hyd, ffurf a chynnwys y CSGA. Mae'r ffenestr i gyflwyno unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n cefnogi'r CSGA yn gyfyng gan fod angen gosod rheoliadau diwygiedig yn eu lle erbyn i gylch presennol y CSGA ddod i ben yn 2020. Mae rheoliadau drafft ar hyn o bryd yn cael eu paratoi gan y Llywodraeth. Cynigiwn y dylid ymgynghori'n ffurfiol ar y rheoliadau diwygiedig hyn ddiwedd y Gwanwyn 2019 cyn i'r rheoliadau newydd gael eu ffurfioli ym mis Tachwedd 2019. Mae'r argymhellion gan y Bwrdd i'r Gweinidog yn y cyd-destun hwn yn cynnig sylwadau ar nifer o faterion gan gynnwys hyd a chylch dylanwad y rheoliadau newydd, dyddiad cychwyn y CSGAau newydd, a sut y gellid eu monitro'n fwy effeithiol. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth gofalus i'r gosodiad yn nogfen polisi Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050* sy'n amlinellu'r dymuniad i symud i ffwrdd o fesur y galw am addysg Gymraeg i drefniant gynllunio fwy systematig a rhagweithiol.⁶
14. Argymhellir hefyd newidiadau i rai o'r deilliannau, gan gynnwys deilliant newydd sy'n ymwneud ag ystod oedran y plant a'r disgyblion y dylid eu cwmpasu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o fewn y CSGAau newydd. O ran yr elfennau pwysicaf, mae argymhellion y Bwrdd Cynghori yn cyffwrdd â'r canlynol:
- yr elfennau hynny sydd wrth graidd y broses gynllunio o ran datblygu addysg Gymraeg
 - diwygio'r dull o gytuno targedau er mwyn gosod trefn yn ei lle fydd yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cytuno targedau heriol a chyraeddadwy sy'n seiliedig ar gyfraniad pob awdurdod lleol at uchelgais y Llywodraeth, fel y'i nodir yn *Cymraeg 2050*
 - hyd y cylch ar gyfer y cynlluniau er mwyn caniatáu gwell cynllunio strategol a sicrhau bod yr amserlen yn cyd-fynd â rhaglenni cyfalaf y Llywodraeth.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/made/welsh>

⁶ *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, t. 37.

Newidiadau i'r cwricwlwm: achub ar y cyfle

15. Un ystyriaeth a ddaeth yn amlwg yn ystod ein trafodaethau oedd y newidiadau sylweddol sydd ar waith o ran polisi addysg yng Nghymru. Daw llawer iawn o'r newidiadau arfaethedig hyn i rym wedi i'r broses hon o gynnig diwygiadau i rheoliadau'r CSGA ddod i ben. Felly wrth ystyried yr hyn sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd, rhaid ystyried a fydd y canlynol yn cael effaith ar y broses o gytuno CSGAau a sut y gellid delio â hynny:

- y cwricwlwm newydd yr arfaethir ei gynnig yn ysgolion Cymru
- dileu y cysyniad o gyflwyno'r Gymraeg fel 'ail iaith'
- cyflwyno ac asesu'r Gymraeg ar un continwrm o fewn y cwricwlwm newydd
- newidiadau posibl i'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahanol gyfnodau o fewn y gyfundrefn addysg gan ddisodli termau fel Cyfnod Allweddol, etc.

16. Mae'r bwriad i ddileu cyfeiriad at gyfnodau allweddol a'r newidiadau posibl o ran cymwysterau hefyd wedi creu sefyllfa lle'r oedd rhaid i'r Bwrdd Cynghori sicrhau bod geiriad posibl y rheoliadau arfaethedig yn ddigon hyblyg i ymateb i'r newidiadau hyn fel na fyddai'n rhaid mynd yn ôl yn gyson at y rheoliadau er mwyn eu diwygio. Er hynny, mae'r Bwrdd o'r farn y bydd rhaid cadw golwg manwl ar y mater hwn ac o bosibl y bydd yn rhaid ailedrych ar y rheoliadau o fewn rhai blynyddoedd er mwyn eu cadw'n gyfredol.

Fforymau sirol

17. Cytunwyd y dylai'r fforymau sirol barhau i gynnwys cynrychiolaeth addas o'r rhanbarth ac y dylid ceisio cael elfen o gysondeb rhwng yr aelodaeth. Ond cytunodd y Bwrdd hefyd y dylai'r aelodaeth gynrychioli'r sir yn briodol ac y gallai hynny amrywio o ardal i ardal. Cytunwyd hefyd y dylid ailedrych ar y rhestr o gyrff y dylid ymgynghori â nhw wrth drafod y cynlluniau drafft gan nad oedd rhai o'r gyrff a restrir yno bellach yn rhai perthnasol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

18. Un o'r meysydd a fu'n achosi'r mwyaf o bryder i'r Bwrdd yn wreiddiol oedd maes anghenion dysgu ychwanegol. Gwan iawn oedd ymdriniaeth y rhan fwyaf o'r CSGAau â'r maes hwn er bod y canllawiau a gyhoeddwyd yn gofyn i'r cynghorau ystyried sut y byddent yn cynyddu eu capasiti i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar adeg yr Adolygiad Brys, ac o ystyried eu harchwiliadau mwyaf diweddar, nifer fach iawn ohonynt a oedd wedi gwneud hynny.

19. Mae deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag ADY wedi creu cyfle i sicrhau bod gan y Gymraeg ran ganolog yng ngofynion cynllunio cyffredinol ADY. Mae'r

cydweithio rhwng swyddogion anghenion dysgu ychwanegol a swyddogion y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru yn esiampl dda o sut y dylid prif-ffrydio'r Gymraeg o fewn datblygiadau polisi o hyn ymlaen. Sicrhaodd y cydweithio hwn nad oes baich ychwanegol yn cael ei roi ar swyddogion awdurdodau lleol am fod y gofynion o fewn y CSGAau newydd yn cyd-fynd â'r gofynion ar y sector o fewn cynllunio ar gyfer ADY

Categoreiddio ysgolion yn ieithyddol

20. Fel rhan o'r gwaith o ailedrych ar weithrediad y CSGAau, penderfynwyd y dylid ailedrych hefyd ar y diffiniadau cyfredol o ran categoreiddio ysgolion yn ôl eu natur ieithyddol. Caiff y grŵp a sefydlwyd i edrych ar y mater hwn ei gadeirio gan Meirion Prys Jones. Daeth yr Adolygiad Brys i'r casgliad ei bod yn bryd symleiddio'r broses o gatedoreiddio ein hysgolion o ran iaith. Mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r dull presennol o gatedoreiddio yn delio'n briodol â'r ddarpariaeth ieithyddol mewn nifer o'n hysgolion. Mae hyn yn creu rhywfaint o ddryswch o ran dealltwriaeth rhieni am natur ieithyddol rhai ysgolion ond hefyd yn creu darlun aneglur ran natur y ddarpariaeth leol. Canlyniad hyn yw ei bod hi'n aneglur i rieni pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellir ei disgwyl mewn gwahanol categorïau. Fe gyfeiriwyd at hyn yn adroddiad Estyn yn 2014: "[n]id yw'r categoreiddio swyddogol [...] yn cael ei ddefnyddio yn gywir bob tro".⁷ Mae'n debyg ei bod yn anos bellach i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ieithyddol o fewn ysgolion wrth ystyried bod y cyfrifoldeb o ran safonau a dysgu wedi ei drosglwyddo i'r consortia addysg rhanbarthol. Mae angen gwell dealltwriaeth o effaith continiwm ieithyddol y cwricwlwm ar y modd y categoreiddir ysgolion yn ôl eu darpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg

21. Bwriedir mynd allan i ymgynghoriad yn ystod Hydref 2019 ar ddiffiniadau drafft newydd ar gyfer y sector Addysg Gymraeg.

Cyflwyniadau i'r Bwrdd Cyngori

22. Gwahoddwyd nifer o fudiadau a sefydliadau i gyfrannu at drafodaethau'r Bwrdd ar lafar neu yn ysgrifenedig dros y 9 mis ddiwethaf. Hoffai'r Bwrdd Cyngori ddiolch i'r canlynol:

Adrannau Addysg ac Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
CBAC

7

[https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Dilyniant ieithyddol a safonau Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog - Tachwedd 2014.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Dilyniant%20ieithyddol%20a%20safonau%20Gymraeg%20mewn%20deg%20ysgol%20ddwyieithog%20-%20Tachwedd%202014.pdf).

CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
Comisiynydd y Gymraeg
Consortium Canolbarth y De
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cyngor y Gweithlu Addysg
Dathlu'r Gymraeg
Dyfodol i'r Iaith
EAS (Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru)
ERW (Ein Rhanbarth ar Waith)
Estyn
GwE
Mudiad Meithrin
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg)
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
Urdd Gobaith Cymru
Y Coleg Gymraeg Cenedlaethol

Cloi

23. Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau a argymhellir i'r CSGAau newydd yn creu sail gadarnach i gynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg.

Rydym am gymryd y cyfle hwn, fodd bynnag, i amlinellu'r materion hynny yr ydym ni fel Bwrdd Cynghori o'r farn fod angen sylw pellach iddynt gan y Llywodraeth. Rydym wedi gosod y materion hynny yn atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mawr hyderwn y bydd modd i'r Llywodraeth ystyried ymhellach y camau hynny nad oedd yn bosib i ni weithredu arnynt am resymau a oedd y tu hwnt i'n gallu, gan gynnwys cyfyngiadau cyfreithiol y ddeddfwriaeth bresennol a'r ffaith fod rhai meysydd y tu allan i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cynghori CSGA.

Hoffem nodi hefyd fod pob un ohonom ar y Bwrdd wedi mwynhau'r cyfle i gyfranogi ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny.

Atodiad 1

I sylw'r Gweinidog Addysg yn benodol:

Meysydd sydd angen gweithredu pellach

24. Yn sgil ystyried yr Adolygiad Brys, mae'r Bwrdd Cynghori o'r farn fod rhai meysydd y mae angen gweithredu pellach arnynt gan y Llywodraeth.
25. Roedd yr Adolygiad Brys yn rhagweld y byddai angen newidiadau deddfwriaethol er mwyn gweithredu'r holl argymhellion a gynigiwyd. Roedd cylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori, fodd bynnag, yn nodi mai dim ond newidiadau i is-ddeddfwriaeth fyddai'n bosibl o fewn y Cynulliad presennol oherwydd y pwysau ar amserlen deddfwriaethol y Llywodraeth. Mae'r gwaith o wneud hynny o safbwynt is-ddeddfwriaeth wedi ei gwblhau ac, fel y nodwyd eisoes, mae rheoliadau drafft yn cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Daw gwaith y Bwrdd Cynghori i ben felly wrth gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud yn bennaf â chyflwyno is-ddeddfwriaeth.
26. Mae'r Bwrdd o'r farn fod angen ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd a fyddai'n diwygio ac yn disodli Deddf Rheoliadau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 sy'n cynnwys gosod y dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi CSGAau. Mae'n gwbl briodol i'r Llywodraeth gytuno rhai newidiadau i'r Is-ddeddfwriaeth bresennol wrth wynebu'r her a osodir gan y ddogfen bolisi *Cymraeg 2050* ond barn y Bwrdd yw bod angen ystyried yn ofalus sut mae cryfhau'n sylweddol y broses o gynllunio ieithyddol ac addysgol a fydd yn sicrhau fod canran llawer uwch o ddisgyblion yn cael y cyfle i allu siarad Cymraeg dros y degawdau nesaf hyn.
27. Mae'r strwythurau o ran darparu, gwella a monitro addysg yng Nghymru wedi newid ers i'r cysyniad o Gynlluniau Addysg Gymraeg gael ei gyflwyno ac ers cytuno ar y deddfwriaeth i gefnogi'r drefn honno. Bellach mae rôl awdurdodau addysg, consortia rhanbarthol ac ysgolion wedi newid, ac mae newidiadau arfaethedig o ran cwricwlwm ar droed. Felly, er mwyn sicrhau gwell darpariaeth o ran cynllunio a darparu ar gyfer addysg Gymraeg a dysgu'r Gymraeg yn fwy effeithiol yn gyffredinol, bydd angen creu deddfwriaeth fwy pwrpasol ac effeithiol er mwyn delio â'r holl ddatblygiadau hyn gan greu trefn a fydd yn fwy cynhwysol ac uchelgeisiol na'r un bresennol.

Cylch dylanwad y CSGA

28. Un o brif wendidau'r CSGAu presennol yw bod y ddeddfwriaeth gynradd yn gofyn am gynlluniau sy'n seiliedig ar sut y bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei "swyddogaeth addysg" i:

- i. wella'r cynllunio darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("Addysg Cyfrwng Cymraeg) yn ei ardal; ac i
- ii. wella safonau addysg cyfrwng Cymraeg ac o addysgu Cymraeg yn ei ardal. Diffinnir y term "Swyddogaethau Addysg" o dan Ddeddf Addysg 1996.

Er bod y cynlluniau gwreiddiol yn cynnwys deilliannau sy'n gofyn am gynllunio o ran darpariaeth gyn-ysgol ac ôl-16, wrth i'r Bwrdd Cynghori fynd ati i drafod newidiadau posibl, codwyd cwestiynau ynghylch dilysrwydd cyfreithiol rhai o'r deilliannau hynny. O ystyried pwysigrwydd y meysydd hyn o ran tyfu ac ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg, codwyd cwestiynau gan y Bwrdd ynghylch dichonolrwydd ymestyn sgôp y cynlluniau ar gyfer darpariaeth gyn-ysgol ac ôl-16. Ond roedd hi'n amlwg fod hynny yn broblematig o ran y ddeddfwriaeth bresennol.

Gofal plant

29. Nododd yr Adolygiad Brys fod "angen sicrhau fod cynllunio digonol ar lefel genedlaethol a lleol ar effaith darpariaeth gofal plant 30 awr ar batrymau lleol fydd o bosibl yn effeithio ar y strategaeth iaith *Cymraeg 2050*". Bwriad gwreiddiol y Bwrdd Cynghori, felly, oedd cyflwyno deiliant newydd yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg wrth gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 3 ac 16. Y dymuniad oedd gweld y cynllunio hynny'n digwydd yn y cyfnod cyn cyrraedd 3 oed, fel bod cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnwys gofal plant, addysg statudol a thu hwnt, sef un llwybr ieithyddol di-dor. Dealltwriaeth y Bwrdd Cynghori yw nad oes modd cyflawni hyn drwy'r ddeddfwriaeth hon yn unig, gan ei bod y tu hwnt i swyddogaethau addysg awdurdodau lleol dan Ddeddf Addysg 1996.

30. Felly, mae'r Bwrdd Cynghori o'r farn mai'r unig ffordd ymlaen o dan y ddeddfwriaeth bresennol yw sicrhau bod cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3 oed a throsodd yn digwydd drwy ddefnyddio'r data sy'n deillio o adolygiad blynyddol yr awdurdod lleol o ddarpariaeth gofal plant ddigonolrwydd ar gyfer eu hardal (o dan Adran 118A Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Ar hyn o bryd mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, gynaliadwy a hyblyg sydd yn ymateb i ofynion rhieni ym mhob sir yn unol â Deddf Gofal Plant 2006. O dan y ddeddf honno mae'r adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant yn cael

eu hystyried yn rhan o'r broses gynllunio o ran cyfrifoldebau addysgol awdurdodau lleol. Maent yn ffynhonnell data defnyddiol ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

31. Er ein bod wedi awgrymu ffordd ymarferol i gynnwys gofal plant o fewn cynllunio ar gyfer addysg Gymraeg nid yw hyn cystal â'r datrysiad a ystyriwyd yn wreiddiol. Mae angen cynllunio ieithyddol effeithiol ar hyd ystod oedran 0–25 os ydym am lwyddo i gyrraedd nod *Cymraeg 2050*. Mae cynllunio'n briodol ar gyfer yr ystod oedran uchod yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol i'n galluogi i wneud hynny sydd y tu allan i gyfyngiadau cynlluniau addysg gorfodol 3–16. Rhaid ystyried yr angen hwn yn ofalus wrth gynllunio unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn y dyfodol.

Y sector ôl-16

32. Yr un sefyllfa sy'n bodoli o ran y ddarpariaeth ôl-16. Daeth y Bwrdd Cynghori i'r casgliad nad oes modd, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, i roi unrhyw ofynion ar awdurdodau lleol i gynllunio darpariaeth Gymraeg ar gyfer y sector addysg bellach. Oherwydd bod gan y sector addysg bellach statws newydd dan Ddeddf Llywodraethu a Gwybodaeth Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2014, un o argymhellion yr Adolygiad Brys oedd bod angen ffocws newydd ar y diffyg darpariaeth yn y Gymraeg o fewn y sector ôl-16 a galwedigaethol.

Nododd Estyn yn ei adroddiad *Dewis Ehangach a'r Craidd Dysgu* (2010): *'Mae darparu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 yn her fawr, ac mae dilyniant yn anodd ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu cynnig cyrsiau galwedigaethol sydd angen staff ac offer arbenigol, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn rhy bell i ffwrdd i rannu darpariaeth. Yn aml, nid oes tiwtoriaid Cymraeg sy'n ddigon hyderus i gyflwyno'r cyrsiau hyn yn Gymraeg mewn colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith sydd â'r cyfleusterau.'*⁸

Nid oes arwyddion fod y sefyllfa wedi gwella ers hynny. Bydd cynlluniau'r Llywodraeth a rôl arfaethedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hyn o beth yn neilltuol bwysig yn y dyfodol ond mae angen gwell dealltwriaeth o sut mae cynllunio addysg Gymraeg ar lefel siroedd unigol yn cael ei hybu neu ei lesteirio

8

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Dewis%20enhangach%20a%27r%20craidd%20dysgu%3A%20cynydd%20wrth%20weithredu%20dewis%20enhangach%20o%20opsiynau%20a%27r%20craidd%20dysgu%20ar%20gyfer%20dysgwyr%2014-19%20oed%20-%20Awst%202010.pdf>

gan nifer llai o golegau addysg bellach, mwy o faint, sydd yn gweithredu yn gynyddol ar lefel draws-sirol.

33. Mae adroddiad thematig diweddar Estyn, *Addysgu a dysgu cyfrwng Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach* (2017), yn dangos bod llawer o waith i'w wneud yn y sector hwn.⁹ Mae'r Bwrdd o'r farn y byddai'n fuddiol o ran y ddarpariaeth Gymraeg petai modd datrys y gwrthdaro hwn rhwng gallu awdurdodau lleol a'r Llywodraeth ei hun i gynllunio'n bwrpasol ynghylch defnydd y Gymraeg o fewn sector addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'n amhosibl gwneud hynny o fewn cyfyngiadau'r CSGAau presennol.
34. Mae'r Bwrdd wedi ceisio cynnig ffordd ymarferol ymlaen ar gyfer y CSGAau newydd. Er hynny, credwn fod angen sicrhau cyfundrefn gynllunio ieithyddol fwy effeithiol o fewn y sector addysg a hyfforddiant ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg. Yr unig ffordd ymlaen, heb y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol, yw drwy amlygu'r angen i awdurdodau lleol a'r colegau gynllunio ar y cyd. Un dull o weithredu hyn fyddai cynnwys gofyniad yn llythyr ariannu pob coleg gan y Gweinidog yn nodi'n glir yr angen i gydweithio â'r siroedd. Byddai'r cynllunio hwnnw'n adrodd ar lwybrau dysgu'r bobl ifanc hynny a oedd o fewn addysg Gymraeg cyn iddynt drosglwyddo i addysg bellach a cheisio cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y sector ar yr un pryd.

Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

35. Mae'r dasg o geisio defnyddio'r CSGAau fel dull i sbarduno cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wedi profi'n anos na'r disgwyl. Anodd iawn yw creu deilliannau a gofynion ar awdurdodau lleol o fewn CSGAu lle mae'r trefniadau a'r cyfleoedd i wneud hynny yn aml y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg statudol. Daethom i'r casgliad fod cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg yn holl bwysig o ran llwyddiant *Cymraeg 2050*. Ond casglwyd hefyd ei bod yn hynod anodd pennu ffyrdd o wneud hynny o fewn cyfundrefnau ffurfiol y CSGAu gan nad oes modd cynnwys deilliannau mesuradwy o fewn cyfrifoldebau addysgol yr awdurdodau lleol.
36. Cytunwn, fodd bynnag, fod angen gweithio mewn partneriaeth agos gyda chyrrff megis y Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru a'r Ffermwyr Ifanc er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn mwynhau mwy o gyfleoedd i gael

9

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Bilingual%20Teaching%20in%20FE%20cy_0.pdf.

profiad o'r Gymraeg fel iaith fyw. Yn wir credwn fod angen cynyddu'r cysylltiadau rhyngddynt a bod rôl arweiniol ganddynt i'w chwarae.

Hyfforddiant athrawon

37. Maes arall lle mae gwir angen ymyrraeth polisi ar frys gan y Llywodraeth yw maes hyfforddiant athrawon. Croesawn y camau sydd wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddeall natur y gweithlu presennol. Wrth inni ddeall yn well ofynion y gweithlu dros y blynyddoedd nesaf mae angen dybryd i'r Llywodraeth ddefnyddio ei dylanwad a chymryd camau breision ymlaen, mewn cydweithrediad â'r Cyngor y Gweithlu Addysg, o ran cynyddu niferoedd yr athrawon a fydd ar gael i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
38. Er y gwelliant diweddar o ran cael darlun mwy cyflawn o'r gweithlu addysg, mae angen sicrhau bod anghenion y ddarpariaeth yn y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawer mwy manwl wrth drafod y ddarpariaeth o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a'r math o ddata a gesglir wrth gynllunio'r gweithlu addysg yn y dyfodol. Hyd yn hyn ychydig iawn o sylw a roddwyd i gynllunio'r gweithlu addysg yn ei gyfanrwydd o gyfeiriad datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg, sefyllfa sydd mewn gwirionedd yn anodd ei dirnad. Yn y dyfodol bydd yn rhaid i'r Llywodraeth fod â darlun llawer cliriach o'r anghenion o safbwynt athrawon sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod **targedau penodol ac uchelgeisiol** o ran recriwtio athrawon sy'n medru'r Gymraeg i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Bydd hyn hefyd yn gofyn am gynllunio mwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol.
39. Mae'r sefyllfa ynglŷn â chasglu data gweithlu addysg wedi gwella yn ddiweddar ond mae angen i Lywodraeth Cymru gadw golwg ar y sefyllfa a phenderfynu pwy ddylai gasglu pa ddata am y sector cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan y data hwnnw hygrededd cenedlaethol ac y gellir cynllunio gyda hyder ar ei sail.

Arholiadau cyfrwng Cymraeg

40. Mater arall sydd angen sylw gan Adran Addysg y Llywodraeth, Cymwysterau Cymru a CBAC yw'r aneglurder o ran data pan fo disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer papurau arholiad mewn ysgolion dwyieithog . Byddai'n da gwybod faint yn union o ddisgyblion sy'n sefyll eu arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod gwaelodlin gwrthrychol a phendant ar gael at ddibenion cynllunio a mesur cynnydd.